

Cyflwyno Cadw



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFLWYNO CADW

Gorffennaf 2019

 **Cadw**



Mae statws Safle Treftadaeth y Byd Castell Conwy yn ei gydnabod yn gwbl deilwng fel campwaith am ei gynllun milwrol canoloesol.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000

E-bost: cadw@llyw.cymru

Gwefan: <http://llyw.cymru/cadw>



Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37616 ISBN digidol 978-1-83876-521-7 ISBN argraffu 978-1-83876-522-4

Llun y Clawr: Castell a thref Caernarfon sy'n dangos yr amgylchedd hanesyddol o'n cwmpas. Yn yr ardal fach hon gallwch weld nifer o henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardal gadwraeth sydd oll o fewn Safle Treftadaeth y Byd.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Cyflwyno Cadw



Castell Dolwyddelan, a adeiladwyd gan dywysog Cymru, Llywelyn ap Iorwerth, yng nghanol Eryri.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw. Rydym yn gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Rydym yn gwneud hyn drwy:

- helpu i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol
- hybu'r broses o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol yn briodol
- helpu pobl i werthfawrogi a mwynhau ein hamgylchedd hanesyddol
- sicrhau bod ein hamgylchedd hanesyddol yn gweithio er ein llesiant economaidd
- cydweithio â phartneriaid er mwyn cyflawni ein nodau cyffredin gyda'n gilydd.

Mae Cadw yn rhan o Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru ac yn atebol i'r Arglwydd Elis-Thomas AC, y Dirprwy Weinidog. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ei Flaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru ym mis Medi 2018. Rydym yn gweithio er mwyn cyflawni ei uchelgais drwy ein cynllun busnes tair blynedd.



Yr Arglwydd Elis-Thomas yng Nghastell Caernarfon.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol



Bwthyn chwarelwr anghysbell rhestredig gradd II ger Llanberis, Gwynedd.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae gwarchod a diogelu ein hamgylchedd hanesyddol yn sail i'n holl waith.

Rydym yn gwneud hyn drwy:

- warchod a rheoli'r 130 o henebion sydd yn ein gofal
- nodi llefydd o arwyddocâd hanesyddol arbennig a'u gwarchod yn gyfreithiol drwy'r system ddynodi
- cynnig cyngor ac arweiniad i bobl sy'n gwneud penderfyniadau, perchnogion a deiliaid am y broses o reoli newid i asedau hanesyddol a hyrwyddo arferion da ym maes cadwraeth
- darparu grantiau ar gyfer gwarchod ac atgyweirio adeiladau hanesyddol a henebion cofrestredig, ac ar gyfer prosiectau treftadaeth cymunedol
- hybu gwaith adfywio arbennig a datblygu cynaliadwy drwy dreftadaeth
- adolygu a gwella deddfwriaeth, polisiau a chanllawiau er mwyn diogelu ein hamgylchedd hanesyddol.

Un o'n canllawiau arferion gorau sy'n helpu perchnogion a llunwyr penderfyniadau i reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae sgiliau'n bwysig



Crefftwyr medrus Cadw wrth eu gwaith.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae'r broses o ddiogelu a gwarchod ein hamgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar amrywiaeth o bobl broffesiynol a medrus, gan gynnwys archaeolegwyr, haneswyr pensaernïol, penseiri cadwraeth a chrefftwyr medrus ym maes cadwraeth.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol holl weithwyr proffesiynol y maes treftadaeth. Yn benodol, rydym yn cydweithio ag eraill i ddenu a hyfforddi pobl sy'n ymuno â'r diwydiant adeiladu treftadaeth o'r newydd. Y gweithlu hwn a fydd yn helpu i sicrhau bod ein stoc o adeiladau traddodiadol (adeiladau cyn-1919) yn cael eu gwarchod at y dyfodol. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- Partneriaeth sgiliau strategol gyda Historic England, Historic Environment Scotland a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)
- Cydweithio â'r tri chorff treftadaeth cenedlaethol arall yng Nghymru i ddatblygu cynllun sgiliau'r sector.

Seiri maen Cadw yn gosod treswaith carreg newydd.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Trysori a mwynhau ein hamgylchedd hanesyddol



Hwyl i'r teulu yng Nghastell Biwmares.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Gellir adrodd hanes Cymru drwy ein tirweddau a'n trefluniau a thrwy'r llu o adeiladau hanesyddol a henebion sydd o'n cwmpas ym mhob man. Rydym yn helpu pobl i ddeall, gwerthfawrogi a mwynhau'r hanes hwn drwy wella mynediad i'r safleoedd sydd yn ein gofal mewn ffyrdd arloesol ac annog perchnogion safleoedd hanesyddol eraill i wneud hynny hefyd.

Safleoedd Cadw

Rydym yn rheoli 130 eiddo hanesyddol ar ran Llywodraeth Cymru. Drwy ddarparu mynediad i'r safleoedd hyn a'u defnyddio i arddangos hanes Cymru, ein nod yw annog pobl i ymchwilio i'r amgylchedd hanesyddol a'i werthfawrogi.

Mae mwyafrif ein safleoedd ar agor yn ystod yr holl oriau disgwyliedig arferol ac mae mynediad yn rhad ac am ddim. Er nad oes staff ynddynt, bydd paneli dehongli neu byst sain yn eich helpu i wneud y gorau o'ch ymweliad. Yn aml mae arweinlyfr neu bamffled ar gael ar wefan Cadw neu o siop leol.



Cegin Plas Mawr, Tŷ Trefol o oes Elizabeth, Conwy.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae staff yn bresennol mewn wyth ar hugain o'r safleoedd mwyaf a chodir tâl mynediad gan amlaf. Mae mwy o arddangosfeydd yn y safleoedd hyn fel arfer yn ogystal â siop, ac mae gan rai gyfleusterau arlwy. Bydd unrhyw incwm a wneir yn ein safleoedd drwy dâl mynediad neu weithgarwch masnachol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith ehangach Cadw. Mae ein ceidwaid yn falch o'u henebion ac yn barod iawn eu cymorth bob amser i wneud eich ymweliad yn un gwerth chweil.

Yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2019:

- croesawyd 1,321,400 o ymwelwyr i'n safleoedd sydd â staff ac o'r rhain daeth 463,807 i mewn am ddim
- rydym yn amcangyfrif bod ein safleoedd sydd heb staff wedi derbyn o leiaf 1 miliwn yn rhagor o ymwelwyr.

I ddysgu mwy am bob heneb, gan gynnwys oriau agor, digwyddiadau arbennig a threfniadau mynediad, beth am fwrw golwg ar ein gwefan www.llyw.cymru/cadw neu'r 'ap' Cadw y gellir ei lawrlwytho am ddim.

Digwyddiadau, dysgu a gwirfoddoli

Mae ein safleoedd yn ganolbwynt i'n gwaith o wneud amgylchedd hanesyddol Cymru'n ddiddorol a dealladwy. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd gan gynnwys paneli gwybodaeth, cyflwyniadau sain ac arweinyfrau safleoedd. Rydym yn trefnu rhaglen fywiog o weithgareddau a pherfformiadau, diwrnodau hanes byw ac arddangosiadau fel ffordd lai ffurfiol o ddysgu hefyd.

Rydym yn darparu cyfleoedd addysgol mwy strwythuredig hefyd – mae mynediad am ddim ar gyfer partïon ysgol a grwpiau addysg oedolion. Mae adnoddau dysgu ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli yn safleoedd Cadw ac yn annog pobl i gymryd rhan mewn cynlluniau i wella mynediad i rannau eraill o'r amgylchedd hanesyddol. Gall y rhain amrywio o glirio rhedyn i greu mynediad i lefydd na all y cyhoedd eu cyrraedd fel arfer. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau bywyd a all wella iechyd a lles yn ogystal â dod â chyfleoedd cyflogaeth unrhyw bryd mewn bywyd.



Gweithgarwch dysgu yng Nghastell Biwmares.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Dehongliad blaengar cyfoes yng Ngwaith Haearn Blaenafon sy'n egluro sut roedd y safle diwydiannol cymhleth yn gweithio 'slawer dydd.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Sicrhau bod ein hamgylchedd hanesyddol yn gweithio er ein llesiant economaidd



Mae gan Ddinbych-y-pysgod ei nodweddion unigryw ei hun sydd wedi helpu i ddod â llesiant economaidd i'r dref hanesyddol hon.

© Hawlfraint y Goron (2019), Croeso Cymru

Gwyddom fod yr amgylchedd hanesyddol yn gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol at economi Cymru fel a ganlyn:

- amcangyfrifwyd ei fod yn cyfrannu £963 miliwn y flwyddyn at economi Cymru (2016)
- cefnogi dros 40,500 o swyddi yn y sector treftadaeth, y sector twristiaeth treftadaeth a'r diwydiant adeiladu treftadaeth.
- cynnig profiad ymwelwyr unigryw i dwristiaid.

Mae'n gwneud cyfraniad yr un mor bwysig, er llai amlwg, at ansawdd a bywiogrwydd y llefydd rydym yn byw a gweithio ynddynt. Drwy annog pobl i warchod a gwella'r cymeriad hanesyddol sy'n gwneud pob dinas, tref a phentref yn unigryw, gallwn helpu i greu llefydd nodedig sy'n denu mewnfuddsoddiad a phobl.



Mae digwyddiadau mawr yng Nghastell Caernarfon wedi dod â budd i'r gymuned leol ac wedi gwella profiadau ymwelwyr.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth



Archaeoleg gymunedol ar waith yn siambr gladdu Llwyneliddon.

© Adam Stanford

Rydym yn cydweithio â sefydliadau partner a rhwydweithiau amrywiol, o sefydliadau cenedlaethol mawr i grwpiau cymunedol lleol. Dyma rai o'r grwpiau rydym yn cydweithio â nhw i warchod a hybu'r amgylchedd hanesyddol:

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae'r Comisiwn yn ymchwilio, yn dehongli ac yn sicrhau bod gwybodaeth awdurdodol am yr amgylchedd hanesyddol ar gael. Mae'n cynnal Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru hefyd ac yn rheoli Cymru Hanesyddol, y porth ar gyfer gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a gyrchir drwy fapiau.

<https://cbhc.gov.uk/>

Ymddiriedolaethau Archaeolegol

Sefydlwyd pedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru ddeugain mlynedd a mwy yn ôl er mwyn darparu cyngor archaeolegol cynhwysfawr i Gymru gyfan. Maen nhw'n llunio a chynnal cofnodion amgylcheddol hanesyddol statudol ar gyfer Gymru hefyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent

http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

<http://www.heneb.co.uk>

Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol

Mae Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cydweithio er mwyn cydweithredu a rhannu arbenigedd, er enghraifft, datblygu sgiliau, gwasanaeth cwsmeriaid a gweithgareddau masnachol.

Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol


Sefydlodd Gweinidogion Cymru'r fforwm lefel uchel hwn er mwyn cael trosolwg strategol o faterion a chyfleoedd yn yr amgylchedd hanesyddol – gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, sgiliau a gwerth economaidd yr amgylchedd hanesyddol – a hyrwyddo dulliau cyffredin er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r prif sefydliadau yng Nghymru sudd â buddiannau amgylcheddol hanesyddol.

Fforwm Treftadaeth Adeiledig

Mae llawer o waith Cadw'n golygu cydlynu agos ag awdurdodau lleol Cymru, yn benodol ar faterion cynllunio a rheoli datblygiadau. Mae'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig yn darparu rhwydwaith ar gyfer swyddogion cadwraeth o'r 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru (22 o gynghorau a'r 3 awdurdod Parc Cenedlaethol).

Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru

Mae llawer o addoldai hanesyddol yng Nghymru wedi cau neu mewn perygl o gau. Mae'r fforwm hwn yn dwyn enwadau a rhanddeiliaid eraill ynghyd er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio'r mannau addoli hanesyddol yn ogystal â rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.



Hen Gapel Coffa Pontypridd, sef meddygfa Eglwysbach erbyn hyn.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Gwybodaeth am Cadw



Un o dîm adeiladau rhestredig Cadw yn egluro pwysigrwydd hanesyddol tŷ i'r perchennog.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae tua 250 o bobl yn gweithio i Cadw ar draws disgyblaethau amrywiol.

Mae tua 100 o'n pobl yn geidwaid – gan weithio mewn henebion yn ein gofal – neu'n rhan o dimau mewdol sy'n gwneud gwaith cadwraeth a chynnal a chadw yn ein safleoedd. Mae gennym staff arbenigol, gan gynnwys wardeiniaid henebion maes ac arolygwyr adeiladau hanesyddol, henebion a pharciau a gerddi hanesyddol, sy'n gweithio ar hyd a lled Cymru.

Mae llawer o'n staff hwnt ac yma ledled Cymru yn gyson, yn ymweld â safleoedd, yn cyfarfod â'r cyhoedd neu gynrychiolwyr awdurdodau lleol – ychydig iawn o waith Cadw y gellir ei wneud y tu ôl i ddesg.

Bwrdd gweithredu mewdol

Pennaeth Cadw yw Gwilym Hughes sy'n atebol i Jason Thomas, y Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Mae Pennaeth Cadw yn aelod o fwrdd gweithredu mewdol sy'n cefnogi, monitro a chraffu ar gyfeiriad strategol, cynllun busnes a safonau Cadw.

Dyma aelodau'r bwrdd ar hyn o bryd:

- Jane Richardson – Cadeirydd ac aelod anweithredol
- Gwilym Hughes – Is-gyfarwyddwr a Phennaeth Cadw
- Huw Davies – Cyfarwyddwr Cyllid Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Michael Davies – aelod anweithredol
- Liz Girling – aelod anweithredol
- Peter Wakelin – aelod anweithredol
- Will Davies – cynrychiolydd staff

Strwythur Cadw

Mae gan Cadw chwe changen weithredol:

1. Yr Amgylchedd Hanesyddol

Rydym yn hyrwyddo gwerthfawrogi, gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Rydym yn gwneud hyn drwy amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys:

- rhestru adeiladau, cofrestru henebion a chofrestru parciau a gerddi hanesyddol sydd o bwys cenedlaethol
- defnyddio ein harbenigedd er mwyn helpu i gadw a gwella'r eiddo yn ein gofal
- darparu gwasanaethau cynghori statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio, esemptiad eglwysig a chaniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig
- helpu perchnogion i ofalu am eu henebion cofrestredig drwy roi cyngor, arweiniad a thrwy'r broses caniatâd ar gyfer henebion cofrestredig
- goruchwyllo arolygon o adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig sydd mewn perygl a chynnig cyngor er mwyn helpu i wella eu cyflwr
- cynnig cyngor a chanllawiau i berchnogion a deiliaid adeiladau rhestredig am y ffordd orau o reoli newid
- cynnig grantiau er mwyn gwarchod a gwella henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig
- nodi effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol a'r ffordd orau o addasu iddynt
- hyrwyddo a chefnogi hyfforddiant mewn sgiliau crefft ym maes cadwraeth
- cydweithio â phartneriaid er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio addoldai segur ac adeiladau cyhoeddus eraill
- cefnogi rhaglenni o weithgareddau sy'n amrywio o gloddfeydd cymunedol i adfywio economaidd
- darparu cymorth drwy grantiau i bartneriaid sy'n gweithio yn y sector treftadaeth yng Nghymru, gan gynnwys ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a chyrrff cadwraeth fel Cyfeillion Eglwysi Difyfaill ac Addoldai Cymru
- sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd am safleoedd dynodedig sydd o bwys cenedlaethol ar Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru.



Mae Castell Caerffili'n cynnig cymysgedd o ddigwyddiadau bywiog ac atyniadau ar gyfer pawb o'r teulu.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

2. Deddfwriaeth a Pholisi

Rydym yn datblygu polisi er mwyn gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy, yn arbennig er mwyn cefnogi deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithredu a gwerthuso Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- datblygu canllawiau rheoli er mwyn cefnogi cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol
- cydweithio â chydweithwyr yn yr adran gynllunio er mwyn integreiddio gwaith rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn y system gynllunio
- cynorthwyo gyda'r broses o gyflawni busnes y llywodraeth ar draws Cadw.



Gall ddysgu am dreftadaeth fod yn hwyl ac yn ddifyr.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

3. Eiddo mewn Gofal

Rydym yn cynnal a chadw, gwarchod a rheoli'r 130 eiddo sydd yng ngofal Cadw. Mae Cadwraeth Cymru — ein tîm cadwraeth mewnol — yn darparu gwasanaethau arbenigol i safonau llym ledled Cymru. Mae ein gwaith yn cael ei ategu weithiau gan gontractwyr treftadaeth allanol arbenigol. Mae ein gwaith yn cynnwys:

- rhaglenni cadwraeth sylweddol yn seiliedig ar wybodaeth awdurdodol a gafwyd o arolygiadau cyfnodol
- darparu gwasanaethau hanfodol i gadw safleoedd Cadw yn ddiogel a hygyrch
- cyflawni prosiectau adeiladu sylweddol er mwyn gwella profiad ymwelwyr.

Mae hyn yn cyfrannu at ein cynaliadwyedd ariannol ac yn cefnogi cymunedau lleol.

4. Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Gwasanaethau Ymwelwyr

Rydym yn cynnig ymweliadau diogel, difyr ac ysbrydoledig i bobl drwy wneud ein safleoedd yn hygyrch i bawb:

- mae gennym 100 a mwy o geidwaid sy'n rheoli 28 safle Cadw sydd â staff gan sicrhau bod y cyhoedd yn cael mynediad diogel iddynt ac yn eu mwynhau
- rydym yn creu a hyrwyddo rhaglen o dros 400 o ddigwyddiadau a diwrnodau allan bob blwyddyn, gan gynnwys arddangosfeydd, gweithdai, gweithgareddau treftadaeth a chelf, teithiau, darlithoedd, ail-greu hanes a pherfformiadau byw
- rydym yn defnyddio'r straeon y tu ôl i safleoedd Cadw ac yn eu dehongli er mwyn ysbrydoli ymwelwyr a darparu profiadau creadigol, cyffrous, difyr sy'n procio'r meddwl
- rydym yn hwyluso dysgu ac ymgysylltu gyda dysgwyr o bob oed, ysgolion, gwirfoddolwyr, cynlluniau profiad gwaith a chymunedau lleol.

5. Marchnata a Datblygu Busnes

Rydym yn dod ag ymwelwyr i'n safleoedd, yn cyhoeddi'r holl waith y mae Cadw yn ei wneud ac yn cynhyrchu incwm rydym yn ei ail-fuddsoddi yng ngwaith Cadw. Rydym yn gwneud hyn drwy weithgareddau amrywiol gan gynnwys:

- digwyddiadau masnach rhyngwladol, llogi ar gyfer priodasau, llogi ar gyfer ffilmio a llogi lleoliadau
- nwyddau o ansawdd uchel ar werth
- marchnata aelodaeth ac ymweliadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus, hysbysebu a'n gwefan
- cyhoeddi arweinyddiaeth a mathau eraill o ddeunyddiau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal ag mewn Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg ar gyfer ein safleoedd mwyaf.

6. Gwasanaethau Canolog

Rydym yn darparu gwasanaethau i bob aelod staff ar draws Cadw:

- rydym yn cyflwyno'r achos dros gyllideb Cadw, yn paratoi adroddiadau ariannol, yn helpu i brosesu trafodion, ac yn darparu cyngor ariannol
- rydym yn sicrhau prosesau llywodraethu cywir ar draws Cadw, gan ddarparu ysgrifenyddiaeth i'r tîm uwch-reolwyr ac i'r bwrdd gweithredu mewnol, a sicrhau bod swyddfeydd yn ddiogel ac yn gweithredu'n effeithlon
- rydym yn darparu gwasanaeth adnoddau dynol Cadw, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, recriwtio, hyfforddi a datblygu
- rydym yn cydgyssylltu gweithdrefnau iechyd a diogelwch.



Dehongliad arloesol yng Nghastell Conwy.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Canfod gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol

Cof Cymru — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirluniau hanesyddol rhestredig. Bydd parciau a gerddi hanesyddol rhestredig yn cael eu hychwanegu at Cof Cymru yn ddiweddarach yn 2019.

<https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru>

Archwilio — darparu mynediad cyhoeddus ar-lein i gofnodion yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Archwilio yn cael ei gynnal a'i gefnogi ac mae rhagor o wybodaeth yn cael ei gadw gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

Coflein — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

www.coflein.gov.uk/cy/

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein i gofnodion cenedlaethol a rhanbarthol yr amgylchedd hanesyddol.

<https://cymruhanesyddol.gov.uk>

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol — cofnodi'r ffurfiau a'r sillafiadau amrywiol a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, tramwyfeydd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau o gyfnodau cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

<https://enwaulleoedddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Rhestr o Feysydd Brwydro Hanesyddol yng Nghymru — adnodd dehongliadol, addysgiadol ac ymchwil yw hwn. Mae 700 a mwy o frwydrau'n ymddangos yn y rhestr, ac ychwanegir ato a chaiff ei addasu yn ôl y gofyn a phan fydd gwybodaeth newydd ar gael

<http://meysyddbrwydro.cbhc.gov.uk/>

Cysylltu â ni a dysgu mwy

Cadw, Llywodraeth Cymru

Plas Carew

Uned 5/7 Cefn Coed

Parc Nantgarw

Caerdydd

CF15 7QQ

Ffôn 03000 256000

E-bost cadw@llyw.cymru

Gwefan <http://llyw.cymru/cadw>

Gallwch gysylltu â ni ym mha bynnag ffordd y dymunwch, byddwn yn ceisio eich rhoi mewn cysylltiad â'r unigolyn a fydd o'r cymorth mwyaf i chi. Mae llawer iawn o wybodaeth ar ein gwefan hefyd, gan gynnwys manylion am ymweld â henebion Cadw, ein rhaglen ddigwyddiadau, ein cynllun aelodaeth a gwybodaeth am grantiau, cadwraeth a chyngor technegol.

Ymunwch â Cadw

Mynediad diderfyn i orffennol Cymru. Ymunwch â Cadw am gyn lleied â £1.50 y mis a chewch fynediad diderfyn i fwy na 100 o safleoedd hanesyddol. <https://www.aelodaethcadw.gwasanaeth.llyw.cymru/>